# Darganfod y Pum Pentref

## Carmel · Chwitffordd

## Gorsedd · Lloc · Pant Asaff



# Croeso i'r Pum Pentref

Mae gan bum pentref plwyf Chwitffordd; sef Carmel, Gorsedd, Lloc, Pant Asaff, a Chwitffordd hanes difyr dros ben.

Yn ôl tystiolaeth y meini hir a'r crugiau claddu niferus lle roedd pobl Oes yr Efydd yn claddu'u meirw, mae'n glir bod pobl wedi byw yn yr ardal hon ers y cyfnod Cynhanes.

Am ganrifoedd, bu perchnogaeth y tir sydd ar ororau Cymru a Lloegr yn asgwrn cynnen gan newid perchnogaeth nifer o weithiau. Ers y cyfnodau cynnar, rhedai'r llwybrau masnach pwysig drwy'r plwyf - o'r llwybrau cynhanes, ffyrdd y Rhufeiniaid, ffyrdd y porthmyn, ffyrdd y goets fawr i'r ffordd A55 heddiw sy'n torri drwy'r plwyf. Daeth ton ar ôl ton o newydd-ddyfodiaid i gynyddu'r boblogaeth leol - rhai yn rhyfelgar; eraill â diddordeb mewn marchnata, cael gwaith neu chwilio am gysur ysbrydol. Âi rhai heibio, ac eraill yn aros ac yn tyfu'n rhan o'r gymuned.



Bu gan dirfeddianwyr lleol, cefnog, effaith sylweddol ar y pentrefi. Roedd y teulu Mostyn a'r teulu Pennant o Downing yn gymwynaswyr mawr i Chwitffordd; yr Is-iarll Feilding, a ddaeth yn Iarll Dinbych wedyn, a adeiladodd Eglwys a mynachdy Pant Asaff.

**Ymchwil:** Lorna Jenner, gyda chyfeiriadau at waith Rowland Tennant.
**Ysgrifennu:** Lorna Jenner
**Golygu:** Dee Rivaz
**Dylunio:** William Smuts
**Argraffu:** Design and Print 01352 704000
**Ffotograffiaeth bywyd gwyllt:** Simon Booth, Steve Young, Mick Brummage
**Hen ffotograffau:** Hazel Daniels, Ray Davies, Rosie Edwards, Beryl a Ronald Evans, Dave Evans, Archifdy Sir y Fflint, The Francis Ffrith Collection, Bob Hughes, Glenys Jones, Gordon Lloyd, Cymdeithas Pennant, Merfyn Roberts, John Still, Dorothy Williams, Helena Williams.
**Ffotograffau:** Lorna Jenner, Pete Lewis, Carl Rogers, Emma Warbrick



Ar ddiwedd y 18fed a'r 19eg ganrif, fe ddatblygodd y diwydiannau, yn enwedig mwyngloddio plwm yn yr ardaloedd calchfaen, gydag ychydig o smeltio ar yr arfordir. Ar ôl y gwelliannau mewn technoleg yn ystod y Chwildro Diwydiannol, fe agorodd mwyngloddiau newydd a chynyddodd y cynnyrch yn gyflym. Cloddiwyd am dywodfaen a chalchfaen yn lleol. Tyfodd y boblogaeth o ganlyniad i'r cynnydd diwydiannol hwn. Datblygodd pentrefi Carmel, Gorsedd, Pant Asaff a Lloc yn gartrefi i'r mwynwyr a'r chwarelwyr. Codwyd capeli, eglwysi ac ysgolion ar gyfer y boblogaeth oedd yn tyfu.

Mae llawer o'r capeli a'r eglwysi yn parhau yn y pentrefi, o'r capel syml ac annwyl yn Lloc, i'r eglwys fawreddog a'r mynachdy ym Mhant Asaff.

Bu ffermio ar y tiroedd bryniog erioed, gan amrywio o'r comin agored lle roedd defaid yn pori yn y dwyrain i'r tir amaeth ffrwythlonach yn y gorllewin. O'r tir uchel gellir gweld golygfeydd eang tua'r môr, neu Foelydd Clwyd a Mynydd Hiraethog.

Mae gan bob un o gymunedau'r pentrefi hyn ei naws wahanol ei hun, yn ôl eu hanes a'r tir o'u cwmpas. Daeth newidiadau mawr dros y canrifoedd, ond maen nhw'n dal i ffynnu er hynny.


Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth gyfoethog diwylliannol a naturiol yr ardal. Diolch o galon i bawb a fenthycodd ffotograffau neu a rannodd eu hatgofion a'u gwybodaeth, ac i Ysgol Bro Carmel ac Ysgol y Llan, Chwitffordd.

Llwythwch y llyfryn hwn i lawr o www.cadwynclwyd.co.uk neu www.flintshire.gov.uk/tourism


Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Drwy'r oesoedd

**2000CC**
*Teuluoedd Oes yr Efydd yn ffermio'n lleol. Nifer o dwmpathau crug ar ôl ble claddasant eu meirw.*



**50-60**
*Ffordd y Rhufeiniaid yn rhedeg drwy Garmel a Gorsedd. Y Rhufeiniaid yn mwyngloddio ac yn smeltio plwm yn lleol.*



**Circa 600au**
*Tybir i'r eglwys gyntaf gael ei hadeiladu, a'i chysegru i Sant Beuno.*

**Circa 600au**
*Adeiladu Clawdd Chwitffordd. Gwelir olion y clawdd pridd hwn- a redodd o Dreffynnon i Drelawnyd - hyd heddiw.*





**Circa 1000**
*Codi Croes Maes Ychwyfan yn ymyl Chwitffordd.*

**1086**
*Cofnod o Chwitffordd a Calcot yn y Llyfr Domesday.*



**1726**
*Ganed Thomas Pennant, sŵolegydd a llenor daearyddol, ym Mhlas Downing, Chwitffordd*




**1757**
*Pasio Deddfau'r Ffyrdd Tyrpeg i wella ffyrdd Sir y Fflint. Adeiladu deg tollty yn lleol.*






**1768**
*Cynnal y rasys cyntaf ar gae rasys Treffynnon, ger Gorsedd.*

**1773**
*Holywell Level Company yn dechrau cloddio'r Wythien Great Holloway o gwmpas Carmel a Gorsedd.*





**1814**
*Adeiladu Capel y Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg.*

**1848**
*Cwmni Calch Treffynnon yn adeiladu lein mwynau i wasanaethu Chwarel Gwyn a Grange Cavern.*



**1849**
*Dechrau adeiladu eglwys Pant Asaff, a'r mynachdy Ffransisgaidd a gorsafoedd y groes yn ddiweddarach.*

**1852**
*Cychwyn adeiladu Eglwys Gorsedd.*



**1886/87**
*Y bobl leol yn gwrthryfela yn erbyn talu'r degwm. Milwyr yn dod i Bentreffynnon, Chwitffordd, i roi cymorth i'r beilïaid i gasglu'r dreth.*



**1951**
*Agor Ysgol Carmel.*

# Gwlad y gororau



Oherwydd eu lleoliad ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, eu hagosrwydd at yr arfordir a'u cyfoeth dichonol o fwynau o dan y ddaear, mae gan y Pum Pentref orffennol cythryblus.

Byddai Llengoedd Rhufain wedi teithio drwy'r ardal hon ar eu ffordd i'r dref fawr Rufeinig yng Nghaernarfon, ac o dan reolaeth yr Ugeinfed Leng a leolwyd yng Nghaer. Ond mae'n debyg bod gan y Rhufeiniaid fwy o ddiddordeb mewn marchnata na mewn brwydro, gan dynnu'r plwm lleol a mwynau eraill.

Atgof arall o hanes y gororau yw Clawdd Chwitffordd. Rhed y clawdd uchel hwn, sydd â ffos ar y ddwy ochr, rhwng Gorsedd a Threlawnyd. Tybir iddo gael ei godi yn glawdd terfyn o ryw fath, ond mae ei hanes yn annelwig. Yn ôl rhai, arweinwyr Sacsoniaid y Mers fu'n ei godi yn y seithfed ganrif, ac mae'n perthyn i Glawdd Offa a Chlawdd Wat sy'n rhedeg i'r dwyrain. Ond yn ôl eraill, cafodd ei godi yn gynharach na hynny, yn Oes yr Efydd.



Yn ddiweddarach, bu Tywysogion Gwynedd ac Ieirll Caer yn brwydro ar hyd a lled yr ardal. Erbyn diwedd y 11eg ganrif, roedd yr ardal o dan lywodraeth y Normaniaid ac yn rhan o Arglwyddiaeth Tegeingl oedd yn atodiad i Sir Gaer. Yn y 13edd ganrif roedd yn diriogaeth o anghydfod unwaith eto, a bu brwydro ffyrnig rhwng y Cymry, o dan y brodyr Llywelyn a Dafydd ap Gruffydd, a'r Saeson, o dan Henry III a'i fab Edward.





Yn y flwyddyn 1257, fe adenillodd Llywelyn Degeingl ond pan ddaeth Edward yn frenin mynnodd reoli Cymru gyfan ac, yn 1277, fe drechodd filwyr Llywelyn yn gyflym. Yn 1282 gwrthryfelodd Dafydd eto ond cafodd yntau hefyd ei orchfygu. Cododd Edward gestyll mawr, cerrig yn Rhuddlan a Fflint i ddangos ei gadernid, a byddai'r pum pentref wedi bod o dan reolaeth gref y Saeson yr adeg honno.

Byddai'r pentrefi hyn wedi bod ynghanol gwrthryfel Owain Glyndŵr yn 1400, ac mae'n debyg y byddai nifer o ddynion y fro wedi cymryd rhan yn yr ymosodiadau ar gestyll y Fflint a Rhuddlan, gan gynnwys un o hynafiad yr Arglwydd Mostyn.

Yn y 17eg ganrif bu aflonyddwch unwaith eto yn ystod y Rhyfel Cartref. Addawodd bonheddwyr, rhydd-ddeiliad ac offeiriaid Sir y Fflint, gan gynnwys y teulu Mostyn, eu cefnogaeth i'r Brenin Charles. Roedd y Cyrnol Roger Mostyn yn un o'r bonheddwyr lleol a ymarfogodd, gan godi byddin yn gyflym o weithwyr amaethyddol a mwynwyr. Ar ôl i'r brenhinwyr gael eu gorchfygu fe gafodd yr Arglwydd Mostyn a'i gymydog Robert Pennant eu dirwyo am 'ymarfogi o blaid y Brenin'.



# Y Cyfoeth a'r mawredd



Roedd nifer o dirfeddianwyr cyfoethog yn berchen ar lawer o'r tir yn yr ardal, y mwyaf nodedig oedd y Teulu Mostyn, y Teulu Pennant, Dugiaid Westminster ac Ieirll Dinbych. Roedd ganddynt gryn ddylanwad yn yr ardal gan adeiladu eglwysi, rhedeg mwyngloddiau, ariannu ysgolion a chefnogi digwyddiadau'r pentrefi. Mae gan Chwitffordd, yn enwedig, gysylltiadau clos â'r Teuluoedd Mostyn a Phennant.

*"Pan roeddwn i'n blentyn, roeddwn yn byw ym Mhenrallt, ar gyrion Stad Mostyn, a byddai'r Arglwydd Mostyn yn mynd heibio'n aml ar gefn ei geffyl, ac yn rhoi darn tair ceiniog imi'n aml iawn."*

Sue Hughes

Gelwir y tir sydd yn Nyffryn Gwibnant yn 'Dir Pennant'. Yn y fan hon, yn 1627 adeiladodd John Pennant ei blasty mawr - Plas Downing. Yn 1922 cafodd y tŷ ei ddifrodi'n arw iawn gan dân, a chafodd ei ddymchwel yn 1953. Mae'r stablau a chytiau'r cwn hela yn dal yma, wedi'u trawsnewid yn dai erbyn hyn. Mae porthdy blaenorol yn sefyll ar gyrion y pentref. Tir parc oedd y tir sydd y tu ôl iddo, ac mae rhai hen goed yn dal i dyfu yma ac acw.



*Prif lidiart Eglwys Chwitffordd*

Sonnir bod rhywfaint o gystadlu rhwng y ddau deulu. Roedd y ddau'n cymwynaswyr i eglwys Chwitffordd, gan ariannu ailadeiladu twr y gorllewin yn 1873. Roedd dwy fynedfa wahanol gan yr eglwys, a dywedir bod un i'r teulu Mostyn a'r llall i'r teulu Pennant.

*'Yr enw ar y giât gyferbyn â'r ysgol oedd Giât Mostyn'. Pan ddeuai'r Arglwydd a'r Arglwyddes Mostyn i'r gwasanaeth, byddent bob amser yn defnyddio'r drws ar ochr hon yr eglwys ac yn eistedd yn yr eil chwith.'*

Ronald Plummer (ysgrifennydd PCC Chwitffordd 1998-2004)



Roedd y boneddigion lleol yn frwd eithriadol dros rasio ceffylau, gan ffurfio Cymdeithas Hela Treffynnon ('Holywell Hunt') yn 1767. Nhw adeiladodd Cae Rasio Treffynnon yng Ngorsedd ar diroedd oedd yn eiddo i Iarll Dinbych a'r Arglwydd Mostyn gan gynnal rasys blynyddol yn yr hydref. Wrth i'r rasys ddod yn fwy poblogaidd adeiladwyd tŵr cychwyn a stablau at y pwrpas yn ddiweddarach. Anodd dychmygu sut fyddai'r ardal hon yn edrych yn ystod wythnos y rasys, gyda bwcis, sioeau, a gwylwyr o gwmpas y cwrs! Enillodd un eboles, The Queen of Trumps, a hyfforddwyd gan yr Arglwydd Mostyn, y Holywell Champagne Stakes yn 1834 a mynd ymlaen i ennill y St Leger a The Oaks enwog! Yn y flwyddyn 1842 cofnodwyd y rasys olaf, y flwyddyn wedyn fe ddechreuodd y rasys hydref yng Nghaer - efallai mai dyna'r rheswm pam deuthant i ben.



*John Roberts yn achub arflun y Teulu Pennant o Blas Downing*



**Thomas Pennant (1726 – 1798)**

Ysgrifennodd y llenor a'r hynafiaethydd enwog hwn yn helaeth am sŵoleg, ond mae'n enwocach am fod yn arloeswr llên teithio. Creodd ei lyfr 'Tour in Wales' ffasiwn ymhlith Saeson ifainc, cyfoethog, i deithio ym mynyddoedd Cymru. Teithiai Pennant ar gefn ceffyl yng nghwmni'r Cymro y Parchedig John Lloyd o Gaerwys, a'i was, yr artist Moses Griffith a fu'n sgetsio ar y ffordd. Mae'r disgrifiadau manwl a chywir yn ei waith o ddiddordeb mawr hyd y dydd heddiw.


# O Dan dy draed

Y craigwely o danodd a luniodd tirwedd y Pum Pentref gan bennu sut y defnyddir y tir. Dros filiynau lawer o flynyddoedd, crëwyd haen ar haen o greigiau gwahanol. Pan roedd y rhan hon o Gymru yn gorwedd o dan foroedd trofannol, gosodwyd dyddodion calchfaen o gyrff anifeiliaid y môr. Wrth i lefel y môr ostwng, fe ddatblygodd deltâu afonydd gan osod llaid a thywod a ffurfio Siâl Treffynnon a gro manach Tywodfaen Gwesbyr. Yn ddiweddarach, tyfodd corsydd a choedwigoedd enfawr ar y deltâu gan ffurfio dyddodion gwerthfawr o lo ymhen amser yn nes at yr arfordir.

Dros gyfnod o amser, cafodd yr haenau o greigiau eu plygu, eu hollti a'u ffawtio gan rymoedd symudiadau'r ddaear a ffurfio'r cefn gwlad tonnog a'r dyffrynnoedd a welwn ni yma heddiw.

Calchfaen yw'r rhan fwyaf o'r ardal hon; craig sy'n dal gwythiennau cyfoethog o blwm, arian a zinc. Denodd hyn ddiwydianwyr mentrus a agorodd nifer o gloddfeydd a chwareli er mwyn tynnu cerrig adeiladu a chalchfaen i wneud calch.

*350 miliwn o flynyddoedd yn ôl roedd llawer iawn o'r ardal hon o dan for cynnes, trofannol.*





Ar dywodfaen mae Chwitffordd yn gorwedd. Caiff ei graig hon hefyd ei chloddio, am ei lliw ocr meddal sy'n nodweddiadol o rai o adeiladau'r ardal ac yn cyferbynnu â'r calchfaen llwyd a ddefnyddir yn y pentrefi eraill.

Yn y disgrifiadau o'r mwyngloddiau, sonnir yn aml am y nentydd tanddaearol a'r ogofeydd. Rhed y dŵr drwy holltau mân yn y calchfaen gan greu nentydd a llynnoedd tanddaearol. Golyga hyn bod nentydd ar yr wyneb yn diflannu am ran helaeth o'r flwyddyn.

> *"I have also heard on good authority of another large stream of water running through a great subterraneous cavern in working Portaway Mine in Pantasa, but its discharge has never yet been discovered."*
>
> Thomas Pennant, The History of the Parishes of Whiteford and Holywell

Daw'r nentydd tanddaearol allan ble mae'r calchfaen yn cyfarfod â'r tywodfaen. Yn aml iawn, ceir tarddellau a ffynhonnau ble mae dwy fath o graig yn cyfarfod ar yr wyneb, fel yn Saithffynnon, Chwitffordd. Y rhain oedd prif ffynhonnell dwr y pentref, cafodd dwr ei gasglu gyda llaw cyn gosod pympiau codi yn rhai o'r ffynhonnau ar ddiwedd y 1800au. Yn y 1930au, gosododd Cyngor Dosbarth Gwledig Treffynnon bibell dwr o Rosemor i Waenysgor, gan ddod a dŵr yn rhedeg i'r holl Bum Pentref. Gwelir rhai o'r pympiau tapiau dŵr o'r cynllun gwreiddiol hyd heddiw.



*Adeiladwyd eglwys Chwitffordd o dywodfaen, ond mae'r wal flaen yn galchfaen*



# Mwyngloddiau a chwareli

Dichon mai'r Rhufeiniaid oedd y rhai cyntaf i gloddio am blwm pan roedd yr ardal hon o dan reolaeth yr Ugeinfed Leg, a leolwyd yng Nghaer. Suddasant siafftau o gwmpas Carmel i dynnu'r mwyn plwm. Datguddiwyd ingot Rhufeinig, yn pwyso 150lb, pan gloddiwyd sylfeini Ysgol Carmel yn 1949.

O ganol y ddeunawfed ganrif, dechreuodd diwydiant ar raddfa fwy ddatblygu, yn dilyn gwelliannau technolegol y Chwyldro Diwydiannol. Mae gwythien Great Holloway, sy'n wythïen arbennig o gyfoethog yn rhedeg o dan Gorsedd, Carmel a Lloc. Yn 1773, dechreuodd Holywell Level Company, a oedd yn eiddo Syr Pyers Mostyn mewn partneriaeth â Thomas Pennant, gloddio'r wythïen hon ar raddfa fawr. Roedd rheolwr y gloddfa, Thomas Edwards, yn byw yn Saithaelwyd, Carmel. Ar y dechrau, colli arian wnaeth y cwmni, ond wrth i'r siafftiau gael eu dyfnhau a'r twneli eu hymestyn, tyfodd yn broffidiol dros ben. Yn 1818 daeth a tua £130,00 bob blwyddyn (bron £5 miliwn yn arian heddiw), yn rhannol oherwydd bod cyfradd gymharol uchel o arian a chalamin yn y mwyn. (Roedd calamin yn werthfawr am ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud copr a phres ). Erbyn diwedd y 1880au roedd Cloddf Great Holloway yn cyflogi 82 o fwynwyr o dan y ddaear a 50 ar y wyneb.





Roedd cloddio'r garreg leol, calchfaen yn benodol, yn bwysig hefyd ac roedd nifer o chwareli yn ardal Grange erbyn dechrau'r 1800au. Defnyddid y cerrig o Chwarel Pen y Gelli yn Lloc i adeiladu llawer o adeiladau a waliau cerrig lleol, gan gynnwys eglwysi Gorsedd, Brynford a Lloc. Bu cloddio am galchfaen gwyn o safon uchel yn Chwareli Gwyn Pant Asaff a'i ddefnyddio i godi'r eglwys gyfagos, y mynachdy a'r ysgol.



Cynnyrch cloddio yr un mor bwysig oedd y calch, a gynhyrchwyd drwy losgi'r calchfaen mâl mewn odynnau calch. Defnyddid y calch i wneud morter ac i wrteithio'r pridd asid. Roedd calchfaen Aberdo yn cael ei gloddio o dan y ddaear, yn beth a elwir heddiw yn Grange Caverns. Roedd hwn yn arbennig o werthfawr am fod y calch oddi yma yn gallu setio o dan y dŵr, ac felly roedd yn ardderchog i adeiladu dociau, porthladdoedd a phontydd.



*Yr Odyn Calch yng Ngorsedd*

Tua 1848, adeiladodd Holywell Lime Company dramffordd i gludo'r garreg i lawr y llethr ac i Ddoc Maesglas yn haws. Oddi yma, roedd yn cael ei gludo ymhellach i gwrdd â'r gofyn cynyddol am ddeunydd adeiladu yn y trefi a'r dinasoedd oedd yn ymestyn. Rhedai'r llinellau cangen i'r holl chwareli, gan gynnwys cysylltiad tanddaearol i Chwarel Aberdo. Defnyddid y garreg leol a chalch i adeiladu Pont Runcorn, Dociau Belfast, the Weaver Navigation a Dociau Lerpwl a Birkenhead.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, fe gaeodd yr holl fwyngloddiau a chwareli. Roedd rhai wedi cael eu gweithio'n wag, ac eraill wedi methu oherwydd newidiadau yn y farchnad a chystadlu gyda marchnadoedd deunyddiau rhatach o dramor.

Yn yr Ail Ryfel Byd, defnyddid Chwareli Grange i gadw bomiau, gan gynnwys yr enwog 'bouncing bombs' a ddyfeisiwyd gan Dr Barnes Wallis. Parhaodd y cysylltiadau milwrol yn y 1980au pan agorodd Grange Cavern yn amgueddfa filwrol oedd yn arddangos tanciau ac offer milwrol eraill.

# Ffyrdd tyrpeg a thrafnidiaeth

Ers yr amseroedd cynnar bu ffyrdd pwysig o'r dwyrain i'r gorllewin yn croesi'r plwyf.


Aeth y ffordd Rufeinig oedd yn cysylltu Caer a Chaernarfon drwy Garmel a Gorsedd gan ymuno â'r ffordd sydd erbyn hyn yn ffordd Llanelwy wrth y Travellers Inn. Mae rhan yr A5026 rhwng Pant y Wacco a'r A55 yn dal i gael ei galw 'Y Ffordd Rufeinig' ar fapiau.

Yr enw ar y ffordd rhwng Lloc a Ffordd Rhuddlan yw Ffordd Ffrainc, dyma'r ffordd roedd y Normaniaid yn ei defnyddio i deithio rhwng Rhuddlan a Chaer.

O 1765 ymlaen, dechreuodd y Goets Bost deithio drwy'r ardal pan newidiwyd cyfeiriad y Ffordd Bost o Gaer i Gaergybi i fynd drwy Dreffynnon ac yna i'r de drwy Gorsedd i Lanelwy.

Mae'r ffyrdd hyn o'r dwyrain i'r gorllewin yn dal yn bwysig, a chawsant eu gwella'n rheolaidd i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn trafnidiaeth. Thomas Telford, y peiriannydd enwog a gododd yr A55 wreiddiol yn y 1830au, Ers cyfnod y 1970au fe gafodd ei gwella'n eang i'w gwneud yn ffordd fawr yr A55 sydd yma heddiw.

Yn ychwanegol at y prif ffyrdd, cysylltir y pentrefi gan rwydwaith o lonydd cul. Roedd llawer o'r rhain o bwys ers talwm ac yn cael eu defnyddio i gludo mwyn plwm i'r arfordir, a glo i mewn i mewn i'r tir o'r glofeydd wrth y môr. I ddechrau, defnyddid ceffylau pwn ac wedyn ceffyl a throl a wagenni stem.





*Downing gate, Chwitffordd*

Ychydig gwell na llwybrau oedd y ffyrdd cynnar yma, yn llawn rhigolau yn y gaeaf pan nad oedd modd eu defnyddio. Wrth i ddiwydiant ddatblygu ar ddiwedd y 17eg ganrif a dechrau'r 18fed, cynyddodd nifer y cerbydau olwynion ac fe ddirywiodd y llwybrau'n arw iawn. Gosodwyd Ymddiriedolaethau Tyrpeg i wella ac i gynnal y prif ffyrdd pwysicaf, gan godi tal gan y rhai oedd yn defnyddio'r ffyrdd i dalu am gynnal a chadw. Ymddiriedolaeth Dosbarth Mostyn oedd yn gyfrifol am ardal y Pum Pentref gan ddefnyddio cerrig o'r nifer o chwareli lleol i wella sylfeini'r ffyrdd. I godi arian, codwyd deg o doll glwydi ar y prif gyffyrdd. Mae rhai o'r tolltai a oedd yn sefyll wrth y toll glwydi yn dal yma heddiw.



*Tollty Saithffynnon ger Chwitffordd*

Roedd y ffordd ogledd-ddwyrain oedd yn cysylltu Mostyn ac Afonwen yn arbennig o bwysig. Mae dau dollty ar y ffordd hon, yn Saithffynnon, ger Chwitffordd a Bryn y Gaseg, Pant Asaff yn dai preifat erbyn hyn.



*Giât Bryn y Gaseg, Pant Asaff*

Mae'r pentrefi hyn yn dawelach o lawer erbyn hyn am fod y diwydiannau lleol wedi cau a'r priffyrdd wedi'u gwyro heibio'r pentrefi.





Melin Mr Pennant yn Downing

# Gweithio'r tir

Nid yw'r priddoedd calchfaen, tenau, yn ffrwythlon iawn; ac yn yr ardaloedd lle roedd y mwynau plwm yn cael eu golchi mae'r tyfiant yn salach fyth. Ceir peth tir sy'n ffrwythlonach yn ardal Chwitffordd, a gellir tyfu glaswellt toreithiog a chnydau da arno.

Cafodd llawer o'r tir o gwmpas y pentrefi mwyngloddio ei rannu'n dyddynnod. Roedd gan bob tyddyn gae neu ddau ble gallai'r teulu dyfu ychydig o gnydau, cadw ieir a mochyn neu ddau, ac efallai fuwch. Roedd y dynion yn gweithio yn y mwyngloddiau ac yn y chwareli a'r tyddyn yn ychwanegu ychydig at eu cyflog prin.

Hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif, tenantiaeth oedd y rhan fwyaf o'r ffermydd mawr, yn eiddo'r tirfeddianwyr mawr fel y teuluoedd Mostyn, Pennant a Dugiaid Westminster. Roedd gan Thomas Pennant ddiddordeb mawr mewn amaethyddiaeth, ac ysgrifennodd lawer am arferion ffermio'r ardal.

*"The soil is generally poor loam, very thin in places and limestone with large tracts of rock. Some is suitable for cultivation which yield corn, such as barley and oats, in a kindly manner."*

*"The sheep are numerous and have coarse wool. They are a nuisance in the winter when they come onto cultivated land. Mutton is sent to market in the summer."*

*"Most of our farmers fatten cattle and sell them to butchers for Holywell, Chester and Liverpool."*

Thomas Pennant, A History of the Parishes of Whiteford and Holywell





## Rhyfeloedd y Degwm

Ar ddiwedd yr 18fed ganrif, roedd ffermwyr y fro yng nghanol 'Rhyfeloedd y Degwm'. Roedd rhaid i bob ffermwr dalu treth oedd yn ddegwm (degfed ran) eu cynhaeaf i'r eglwys. Cadwyd y cnydau degwm hyn mewn ysguboriau degwm; fel yr un ar fferm Plas Uchaf, Chwitffordd. Yn yn nes ymlaen, roedd rhaid i ffermwyr dalu mewn arian yn hytrach na mewn cnydau, ond roedd pris y dreth wedi'i gosod ar brisiau cnydau ar gyfartaledd, ac felly, roedd ffermwyr yn cael eu taro'n galed yn y blynyddoedd pan roedd cynaeafau sâl. Roedd rhaid i bawb dalu, hyd yn oed os nad oeddynt yn aelod yr eglwys; ac roedd llawer o ffermwyr yn anghydffurfwyr, ac felly hyd yn oed yn fwy dig ynglŷn â thalu treth y degwm.

Yn yr hydref 1886, anfonodd talwyr degymau Chwitffordd lythyrau'n gofyn am ostyngiad yn eu taliadau degwm. Gwrthodwyd hyn. Anfonwyd gorchmynion llys yn erbyn y ffermwyr oedd heb dalu ac aeth beilïaid i'r ffermydd i gynnal ocsiwn o'u cynnyrch. Daeth nifer fawr o bobl i Fferm Pentreffynnon i gyfarfod a'r beilïaid, ac anfonwyd pedwar ugain o blismyn i gadw'r heddwch. Aeth yr arwerthiant rhagddi, ond roedd yr arian a godwyd yn isel dros ben am fod y cymdogion yn gwrthod bidio. Parhaodd yr aflonyddwch a danfonwyd milwyr y 13eg Hwsariaid i gadw trefn.

Lliniarodd Deddf Ddegwm 1891 beth o annhegwch Treth y Degwm drwy ddal y tirfeddiannwr yn gyfrifol am dalu'r degwm yn lle'r tenantiaid. Cawsant eu dileu yn llwyr erbyn 1920.



# Pererindota a gweddïo



Mae'r Pum Pentref yn ymfalchïo yn eu holion crefyddol a'u lleoedd o addoli- rhai ohonyn nhw o'r cyfnodau cynnar. Roedd meini hir Oes yr Efydd sydd yng Ngorsedd a'r nifer o grugiau claddu ble cynhaliwyd defodau ac angladdau yn fannau oedd o bwys ysbrydol filoedd o flynyddoedd yn ôl.

Mae gan yr ardal hon hefyd gysylltiadau â'r seintiau Cristnogol cynnar, fel Sant Beuno a'i nith y Santes Gwenffrewi. Honnir bod Sant Beuno wedi sefydlu'r eglwys gyntaf yn Chwitffordd yn y seithfed ganrif. Byddai nifer fawr o bererinion wedi teithio drwy'r pentrefi ar bererindod i Ffynnon Gwenffrewi, ar eu ffordd i fannau cysegredig eraill fel Ynys Enlli, neu i fedd gwreiddiol y Santes Gwenffrewi yng Ngwytherin.



Dywedir mai croes Geltaidd Maen Achwyfan, Chwitffordd, yw'r groes gron dalaf ym Mhrydain, tybir ei bod dros fil o flynyddoedd oed. Efallai mai cofeb yw hi i ryw unigolyn neu ryw ddigwyddiad ac yn debygol o fod yn lle addoli ar un cyfnod.


Roedd Abaty Dinas Basing, Treffynnon (lle roedd y mynachod Sistersaidd yn gwisgo abidau gwynion), yn ddylanwadol iawn yn y fro yn ystod y Canol Oesoedd, yn berchnogion tir a ffermydd gan gynnwys Grange Farm y tu uchaf i Holway, Mertyn a Thre Abbot. Rhoddodd Edward I arian a thir yn y Gelli, gan alluogi i'r abad adeiladu capel a fferm sylweddol yma. Mae'r adeilad yn dal yma heddiw, yn rhan o ffarm sy'n gweithio.



*Capel y Gelli*




Eglwys Plwyf Chwitffordd yw'r hynaf o'r eglwysi ac o gapeli'r fro o bell ffordd. Eglwys Normanaidd oedd yr eglwys gerrig gyntaf, a cheir cofnod ohoni yn y Domesday book. Dioddefodd yr eglwys ddifrod mawr yn ystod ymgyrchoedd Edward I yn erbyn y Cymry, ac mae rhan hynaf yr eglwys o'r 15fed a'r 16ed ganrif. Mae corff dwbl i'r eglwys, ac mae'n anghyffredin am fod y llawr yn goleddfu'n naturiol o'r gorllewin i'r dwyrain. Cafodd yr adeilad ei newid ac ychwanegwyd ato'n aml; yn 1842 yn arbennig pan ailadeiladodd Ambrose Poynter dŵr y gorllewin, ac adfer yr eglwys gyfan yn nes ymlaen. Mae ynddi lawer o gofebion gwych i'r tirfeddianwyr lleol, y teulu Mostyn a'r teulu Pennant, gan gynnwys Thomas Pennant a gladdwyd yn yr eglwys. Cleddir Moses Griffith, a dynnodd y lluniau i Bennant, mewn bedd gist yn y fynwent.





*Eglwys Chwitffordd*




# Capel ac eglwys

Am ganrifoedd eglwys Chwitffordd oedd yr unig eglwys yn y plwyf, ond wrth i'r pentrefi eraill ddatblygu gyda thyfiant y mwyngloddiau a'r chwareli yn y 18fed a'r 19eg ganrif roedd angen mwy o leoedd o addoliad.


Nid pawb oedd yn dymuno addoli yn eglwys y plwyf. Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, roedd pregethwyr teithiol yn denu tyrfa fawr o wrandawyr brwd. Roedd yr addoli anghydffurfiol symlach hwn yn apelio at bobl y fro, yn enwedig y ffermwyr a'r mwynwyr. Daeth Carmel yn ganolfan bwysig yn ystod dyddiau cynnar Methodistiaeth, o dan arweiniad William Davies o Golch. Yn 1814, codwyd y capel cyntaf yng Ngharmel y tu uchaf i'r pentref presennol, yn ymyl y boncyn glaswellt lle tybir fod rhai o'r pregethau hwyliog cynnar hynny wedi'u traddodi. Denodd y capel gynulleidfaoedd enfawr o hyd at 400 i glywed pregethwr enwog. Roedd nifer yn fodlon sefyll i wrando.

Tyfodd y gefnogaeth i'r Anghydffurfwyr yn gyflym ac, erbyn 1851, amcanir, yng Nghymru, bod 80% o addolwyr ar ddydd Sul yn mynychu'r capeli. Adeiladwyd pedwar capel arall yn yr ardal: Capel Seion ger Carmel a thri chapel yn Lloc; Sion, Capel y Wesleaid Cymraeg, Capel y Bedyddwyr Pen-y-Gelli, a Chapel Methodistaidd Cymraeg Penllwyn. Yn 1901, codwyd adeilad mwy o lawer yn lle capel gwreiddiol Carmel - ar ochr arall y ffordd. Mae'r capel hwn yn dal i ffynnu hyd heddiw; a chapel Sion, Lloc hefyd.

*"Rydym yn dal i gynnal ein gwasanaeth Plygain yng Nghapel Sïon am chwech y bore ar fore dydd Nadolig. Cafodd ei gynnal ers dros 200 mlynedd erbyn hyn, ac mae'r capel dan ei sang bob blwyddyn."*
Glenys Jones, Lloc



*Capel Carmel*





## Y Ddadl Fawr

Wrth i'r cymunedau dyfu, roedd galw am eglwys Anglicanaidd arall ym mhentrefi Gorsedd a Phant Asaff. Roedd llawer o'r tir yn eiddo'r teulu Pennant ac fe briododd yr aeres, Louisa Pennant, â'r Arglwydd Feilding, a wnaed yn ddiweddarach yn Iarll Dinbych. Penderfynasant godi eglwys ym Mhant Asaff i ddathlu eu priodas ac yn 1849 gosododd Esgob Llanelwy'r garreg sylfaen a dechreuodd yr adeiladu. Ond y flwyddyn wedyn, fe drodd y teulu Feilding at y ffydd Gatholig a phenderfynu mai ar gyfer addoliad Catholigaidd fyddai'r eglwys newydd. Bu hyn yn achos protest ac aed i gyfraith ar y mater! Roedd y llysiau o blaid y teulu Feilding am nad oedd yr adeilad wedi'i gwblhau pan fu'r newid meddwl. I wneud iawn am y golled, casglwyd tanysgrifiadau cyhoeddus i godi eglwys Anglicanaidd arall. Gymaint yr ymateb nes codwyd digon o bres i adeiladu dwy eglwys - un ym mhentref Gorsedd a'r llall ym mhentref cyfagos Brynford! Cynlluniwyd yr eglwysi gan T H Wyatt, a fu'n bensaer gwreiddiol Pant Asaff.

Cwblhawyd eglwys Pant Asaff gan y pensaer enwog Pugin a'i chysegru yn 1852. Aeth Pugin ymlaen i gynllunio'r Mynachdy a Gorsafoedd y Groes. Ychwanegwyd Llety Pererinion a Gwesty bach i'r pererinion oedd yn tyrru yno, ac yna ychwanegwyd Cartref Plant Amddifad St Clare, Ysgol Uwchradd Sant Aloysius ac ysgol ddyddiol i blant y pentref. Caeodd y lleiandy, y cartref plant a'r ysgolion flynyddoedd lawer yn ôl; erbyn hyn cawsant eu trawsnewid yn dai. Ond mae'r eglwys a'r mynachdy yn dal i ddenu addolwyr o Gatholigion hyd heddiw.



# Dyddiau ysgol





Bu nifer o ysgolion yn y Pum Pentref. O 1624, cynhaliwyd yr ysgol gyntaf mewn ystafell fechan uwchben llidiart ddeheuol Eglwys Chwitffordd. Yn nes ymlaen fe noddodd tirfeddianwyr lleol ysgol elusennol yn y pentref i addysgu plant y tlodion; yn eu plith roedd Pierce Jones, ffermwr cefnog yn 1771, Mary Bradshaw yn 1745, ac fe gyfrannodd y Teuluoedd Pennant a Mostyn yn y 19eg ganrif. Llosgodd yr ysgol i'r llawr yn 1926 a chodwyd un newydd ar dir a roddodd yr Arglwydd Mostyn yn 1928.




Yn 1821, ariannodd y Teulu Pennant ysgol fechan ym Mhant Asaff i'r plant lleol. Ond ar ôl tröedigaeth Louisa Pennant, trodd yn ysgol Gatholig gan adael y plant Anglicanaidd heb ysgol. Yn 1852, datryswyd y broblem drwy godi ysgol yng Ngorsedd, yr un pryd ag adeiladu'r eglwys. Ymhen deg mlynedd, codwyd ysgol Anghydffurfwyr yng Ngharmel ar ddarn o dir yn ymyl y capel cyntaf.

*"Roedd dau ddosbarth yn cael eu dysgu mewn un ystafell fawr, a phared rhwng y ddau. Roeddwn i yn y dosbarth uchaf efo plant oedd rhwng 9 ac 14 oed."*

Helena Williams, disgybl yn yr Ysgol Brydeinig, Carmel, yn y 1930au



O 1881 roedd addysg breswyl Gatholig i'w gael ym Mhant Asaff; gyda'r disgyblion oedd yn talu yn mynychu Ysgol Breswyl Sant Alloysius, a'r plant amddifad yn mynychu St Clare. Cafodd y plant oedd yn talu

*Cartref Plant Amddifad St Clare*



eu trin yn wahanol iawn i'r plant amddifad, disgwylid iddyn nhw wneud gwaith tŷ. Ar ôl cau'r lleiandy a'r ysgol breswyl, agorodd ysgol y pentref i bob enwad; ond caeodd yn 1983 oherwydd costau gwella adeiladau'r hen ysgol.



Yn 1951, adeiladwyd ysgol fwy o lawer yng Ngharmel a fyddai'n gallu dal disgyblion o'r ysgolion cyffiniol. Caeodd Ysgol Gorsedd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o'r disgyblion i Ysgol Carmel. Yn nes ymlaen, caeodd ysgol Carmel. Defnyddiwyd hen ysgol Carmel yn neuadd y pentref, a'r un yng Ngorsedd yn neuadd yr eglwys. Lleihaodd nifer y disgyblion yn Ysgol Chwitffordd hefyd ond brwydrodd y gymuned leol yn llwyddiannus i'w chadw ar agor.

Mae Ysgol y Llan, Chwitffordd, ac Ysgol Bro Carmel yn dal i ffynnu ac i chwarae rhan ym mywyd y gymuned. Dyma ddisgyblion y gorffennol a'r presennol yn siarad am eu profiadau.



*" Cofiaf yn iawn gerdded gyda'r holl ysgol o'r hen adeilad i'r adeilad newydd ar y diwrnod cyntaf agorodd yr ysgol. Roedd pawb yn gynhyrfus dros ben!"*

Hazel Daniels

*"Dw i'n hoffi ysgol Carmel am fod digon o le i chwarae."*

Jack Garbutt, disgybl Ysgol Bro Carmel, Gorffennaf 2010

*"Mae'r athrawon yn gofalu pan fyddi di'n sâl neu wedi ypsetio, ac mae pawb yn hidio."*

Rachel Maxwell, disgybl Ysgol Bro Carmel, Gorffennaf 2010

*'Dw i'n hoffi ysgol am ei fod yn gyfeillgar ac rydyn ni'n gwneud lot o brojectau hwyliog.'*

Sophie Davies, disgybl yn Ysgol y Llan, Gorffennaf 2010



# Bywyd bob dydd

Roedd pob pentref yn fwy hunangynhaliol o lawer na rwan, gyda siopau a gwasanaeth dosbarthu fel y gallai'r bobl gael bron popeth heb adael y pentref.

Siop groser gyffredinol oedd The Ridgeway Stores, yn gwerthu bron popeth ac archebu unrhyw beth nad oedd yn y siop. Fe gymerodd y Swyddfa Bost a'r siop gyffredinol hefyd pan gaeodd yr hen swyddfa. Roedd Swyddfa Post ym Mhant Asaff hefyd tan y1960au, ac roedd siop groser yn Lloc. Roedd siop fechan a werthai fferins yng Ngorsedd, mewn tŷ o'r enw Hillcrest. Yn Chwitffordd, roedd Swyddfa'r Post a'r siop gyffredinol mewn lleoedd gwahanol dros y blynyddoedd. Caeodd y Swyddfa Post olaf, wrth Yr Huntsman, yn 1983.

*'Roeddwn i'n arfer â berwi fy nghig moch fy hunan, yn torri darnau oddi ar y cosynnod caws ac yn eu torri eto efo weiren gaws'*

Iris Edwards a oedd yn rhedeg Ridgeway Stores, Carmel

Y dafarn oedd calon bywyd y pentref i lawer o bobl. Druid Inn, ym mhentref Gorsedd yw'r dafarn hynaf, yn dyddio o'r 12fed ganrif o bosib. Saif ar gyffordd dwy ffordd a oedd gynt yn ffyrdd pwysig. Byddai wedi bod yn lle i deithwyr aros. (Mae ar gau ar hyn o bryd, ond gobeithia'r bobl leol y bydd yn agor eto toc).



*The Druid Inn*



Agorodd nifer o dafarnau yn ystod y 1800au i wasanaethu'r nifer cynyddol o fwynwyr ac o chwarelwyr, roedd o leiaf 10 lle yn gwerthu cwrw erbyn diwedd y ganrif.

*Mae gan nifer o bobl atgofion am y tegell mawr copr oedd y tu allan i fwyty The Singing Kettle!*





*Yr helfa leol yn mwynhau llymaid yn The Huntsman.*



Ar un adeg, roedd tri thafarn yn Chwitffordd, y Cross Keys, ye Britannia a'r Huntsman – dafarn olaf i gau yn 2008. Roedd yr Huntsman o 1602, a'r enw gwreiddiol arni oedd The Mostyn Arms, gan adlewyrchu pwysigrwydd y teulu.

Yr unig un o'r tafarnau gwreiddiol yn y pentref sy'n dal i fodoli yw The Rock, Lloc, a enwir oherwydd y cysylltiadau gyda mwyngloddio a chwarela. (Tel : 01352 71004).Caeodd Tafarn Glan Llyn cyn 1920, ond agorodd tafarn a bwyty newydd yn ymyl Lloc - Misty Waters (Tel: 01352 720409).

Dywedir bod The Halfway House, Golch, Carmel yn union hanner y ffordd rhwng Treffynnon a Chwitffordd ar ffordd wreiddiol yr A55, sef yr A5026 rwan. (Tel: 01352 710289)

Yr enw gwreiddiol ar y dafarn ym Mhant Asaff oedd Laburnum Inn, roedd yn gwasanaethu'r chwarelwyr lleol a'r gweision fferm. Newidiodd yr enw i 'The Feilding Arms Hotel', yn 1893, a chafodd estyniad oedd yn cynnwys llety. Tŷ preifat yw'r adeilad erbyn hyn.



*Laburnum Inn gynt*

Ar un adeg roedd y bonheddwyr lleol hwythau'n hoff o'u llymaid, gan brynu casgen gyfan o gwrw yn eu hoff dafarn ac aros yno nes roedden nhw wedi'i hyfed yn sych!

*"They never went to bed, even should the term last a week; they either slept in chairs or on the floor, then awoke and resumed their jollity."*

Thomas Pennant, The History of the Parishes of Whiteford and Holywell.

# Yr ysbryd cymunedol

Bu pobl leol yn cydweithio i ymgyrchu ac i godi arian ar gyfer cyfleusterau cymunedol. Cynhaliwyd ffair ardd ym Mhlas Saithaelwyd, Carmel, i godi pres at Neuadd y Pentref. Pan ddigwyddodd yr hen ysgol fod ar gael defnyddiwyd y gronfa ariannol i'w hadnewyddu. Yn fwy diweddar, fe gododd y gymuned arian i greu ardal chwarae a chyfarpar ar gyfer y tai newydd.

Cynllun uchelgeisiol arall i godi pres oedd un cymuned Chwitffordd. Yn 1976 roedd Y Tir Llan, llain o dir o eiddo'r eglwys, o dan fygythiad gan ddatblywyr. Sefydlwyd Cymdeithas Tir Llan Chwitffordd a chodwyd digon o bres i brynu'r maes at ddefnydd y gymuned. Yn y ffair haf flynyddol - oedd yn cynnwys stondinau, gornest dynnu rhaff a sioeau - y codwyd y rhan fwyaf o'r pres. Bob blwyddyn roedd pobl leol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i feddwl am ddigwyddiadau newydd - o rasio hamsteri i daflu tail gwartheg!

Dros y blynyddoedd bu dathlu brwd ar achlysuron cenedlaethol a lleol, o goelcerthi a phartis strydoedd i goffau diwedd Rhyfel Byd II, partis Coroni a Jiwbilî a dathliadau mwy lleol fel agor y meysydd chwarae, ysgol newydd neu neuadd y pentref.



Mae gan y trigolion hyn atgofion melys am ddathlu Diwrnod VE a'r coroni.

Mae Mynachdy Pant Asaff yn dal yn rhan anhepgor o fywyd y gymuned ac yn cynnal Ffair flynyddol i'r pentrefwyr. Roedd y Tad Francis, y brawd sy'n canu, yn atyniad bob amser.







Wrth i'r cymunedau dyfu, ffurfiwyd nifer o glybiau a grwpiau lleol, gan gynnig rhywbeth fyddai o ddiddordeb i bob oed ac anian - o chwaraeon i gadw'n heini, crefftau i gerddoriaeth a dawnsio Morris. Tyrrodd yr ieuenctid i'r Brownies, Guides a'r Cubs a'r Sgowtiaid. Mae Cybs brwd yn dal yng Ngharmel hyd heddiw, a rhestr aros i aelodau.

*" Dw i'n mwynhau Cybs Carmel. Yn aml iawn, rydym yn mynd i mewn i'r coed i chwarae gemau ac yn mynd i'r chwarel i dracio ac i chwarae cuddio."*
George Evans



*Tim Pel droed Carmel, 1950au*

Ffurfiwyd Sefydliad y Merched Carmel yn 1945 ac mae'n dal i ffynnu hyd heddiw, gan gyfarfod nid yn unig i gynnal digwyddiadau cymdeithasol ond er lles y gymuned hefyd.

Ffynnodd nifer o fathau o chwaraeon yn y pentrefi. Rodd Clwb Pêl droed Carmel yn llwyddiannus yn y 1950au gan chwarae yn Golch a chwblhau Cynghrair Dyserth. Mae pêl droed yn dal yn boblogaidd yn y ddwy ysgol.

Yn ystod y cyfnod diweddar, codwyd llain bowlio ac adeilad clwb ar ran o gae'r ysgol. Ffurfiwyd Clwb Bowlio Carmel yn 1997, ac mae'n dal i ffynnu.

Ffurfiwyd Clwb Criced Gorsedd yn 1948 ond daeth i ben yn 1954. Ffurfiwyd clwb newydd, Clwb Criced Carmel a'r Cylch yn 1965, a chwarae ar safle'r hen glwb pêl droed, er bod y cae ar lethr! Yn 1991 chwaraeodd y clwb y gêm gyntaf ar eu maes newydd ym Mhen y Gelli, Lloc. Parha'r clwb yn boblogaidd hyd heddiw ac mae ynddo dimoedd oedolion a thimoedd plant. Daw'r aelodau o'r holl bentrefi.



*Clwb Bowlio Carmel*

# Lle i fywyd gwyllt



Mae'r Pum Pentref yn dal yn wledig eu naws; gyda'r coedlannau aeddfed, y caeau pori, y gwrychoedd trwchus, ymylon y ffyrdd sy'n frith o flodau gwyllt, a'r comin agored yng nghyffiniau Gorsedd tua'r dwyrain. Ceir golygfeydd syfrdanol tua'r môr, a gwelir Ardal y Lynnoedd ac Ynys Manaw ar ddiwrnod clir.



*Carpiog y gors yn ffynnu mewn lleodd gwlyb*

Mae'r cynefinoedd gwahanol yn gartrefi i nifer o adar ac anifeiliaid, ceir yma lawer o ffeuau moch daear, ac yn y gwanwyn mae'r coedwigoedd yn atseinio o ganu adar sy'n cystadlu am gymar.

Daeth natur yn ôl i'r hen chwareli niferus. Datblygodd y gymuned leol yr hen chwarel ym Mhen y Gelli, Lloc, yn Warchodfa Natur yn y 1980au. Dyma le hyfryd i gerdded ac i wylio'r adar niferus. Gwelir blodau gwyllt yn ffynnu ar y priddoedd calchfaen tenau, gan gynnwys y cor-rosyn, y gwyddlwdn cyffredin a nifer o fathau o degeirian. Bydd y rhain i gyd yn denu'r gloÿnnod byw, y gwenyn a'r pryfed. Yn yr haf, mae Chwarel Gwyn Asaff, sydd heb ei chyffwrdd ers pan gaeodd yn 1912, hithau'n drwch o flodau gan gynnwys y tegeirian gwenyn anghyffredin

Mae glaswelltir corsiog Gwern y Cae Ras, Gorsedd, yn rhan o







Ardal o Gadwraeth Arbennig Mynydd Helygain. Ffynna'r tegeirianau a phlanhigion anghyffredin eraill yn y priddoedd gwael, ac mae'r fadfall gribog brin yn magu yn y llynnoedd.

Yn y 17eg ganrif fe greodd Syr Roger Mostyn Lyn Helyg ar gyfer pysgota a saethu. Mae'r llyn yn dal i ddenu adar. Mae'r nifer o lynnoedd bychain a thiroedd gwlyb o gwmpas Chwitffordd hwythau'n gynefinoedd gwerthfawr i'r bywyd gwyllt.

Gwelir cwningod, llygod, llygod y dŵr, a gwiwerod llwyd yn aml yn y meysydd; ac ysgyfarnog o dro i dro hefyd. Mae'r rhain yn ddigonedd o fwyd i'r llwynogod, carlymod a'r adar ysglyfaethus. Yn aml iawn gwelir y bwncathod yn cylchu uwchben a'r cudyllod coch llai yn hofran uwchben ymylon y ffyrdd. Efallai ceir cip ar y gwalch glas yn hedfan yn gyflym ac yn isel ar ôl ei ysglyfaeth, yr adar mân.







# Darganfod y Pum Pentref

Mae rhwydwaith da o lwybrau troed, llwybrau ceffylau a lonydd tawel yn berffaith i gerddwyr. Dyfeisiodd Cymdeithas Pennant nifer o deithiau cerdded sydd ag arwyddion er mwyn darganfod yr ardal yn hwylus. Mae modd llwytho'r pum taith gerdded i lawr o www.cymdeithasthomaspennant.com. I gael gwybod mwy am y Gymdeithas a'r teithiau cerdded, a heb fod gennych fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch Paul Brighton ar 01352 712588 neu Ryan Jenner ar 01352 561013.

Mae Taith gerdded 5 (Taith rhif 11 ar y map) yn cychwyn yn Chwitffordd gan fynd ar hen lonydd suddedig a chaeau a thrwy goed Twr y Garreg. Tybia rhai pobl fod y twr hwn, a elwir yn 'Pharos', yn dwr Rhufeinig ond mae'n fwy tebygol o fod yn dwr gwylio'r 17eg ganrif i rybuddio am forladron. Y tu hwnt i'r coed, mae golygfeydd rhyfeddol o'r môr cyn i'r daith fynd heibio Maen Achwyfan ac yn ôl i'r goedlan, yna heibio Pentreffynnon, lleoliad rhyfeloedd y Degwm, a'r hen ysgubor y Degwm, a chrwydro'n ôl i Chwitffordd, gan groesi lle oedd ar un adeg yn diroedd Downing Hall.



*Tŵr y Garreg*

Taith gerdded 2 o Dreffynnon gan archwilio Carmel, Pant Asaff a'r Chwareli Gwyn gan fynd drwy ardaloedd cefn gwlad tawel gydag atgofion difyr am y gorffennol diwydiannol.

Mae'r plant lleol wrth eu bodd yn darganfod yr ardaloedd gwledig o'u cwmpas gan werthfawrogi'r dirwedd a'r bywyd lleol.

*"Weithiau, gallwch weld yr hwyaid a'r elyrch yn y llyn i lawr y ffordd o Ysgol Chwitffordd."*

*Eleri Prosser*

*"Dw i'n wirioneddol hoff o Chwitffordd am ei fod yn lle gwledig heb ei sbwylio."*

*Cameron Gemmill*

*"Dw i'n hoff o bentref Carmel am fod yr olygfa'n syfrdanol."*

*Tabitha Moss*

*"Mae llond trol o deithiau da o gwmpas Carmel. Mae'r coed a'r Chwareli Gwyn yn dda i wneud popeth – beicio, cyfeiriannu a cherdded."*

*Jack Lancelott*

*"Mi fydda i'n cerdded i fyny i'r coed yn aml efo Mam a'r ci, ac yn mynd ymlaen i Bant Asaff. Rydyn ni'n mynd i'r Mynachdy ac i Orsafoedd yn groes fel arfer."*

*Ellie Forsyth*

*"Mae bob man o gwmpas Gorsedd, lle rydw i'n byw, yn gaeau ac yn fywyd gwyllt."*

*Hannah Pearson*